

Arolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Cefn Coed

Clinig Tawe – ward Clyne a ward Fendrod

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 19 – 21 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	28
4.	Beth nesaf?	32
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	33
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaethau iechyd meddwl yng Nghlinig Tawe, Ysbyty Cefn Coed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar nos Lun, 19 Awst 2019, ac 20 ac 21 Awst yn ystod y dydd. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Clyne – Iechyd Meddwl Oedolion (Menywod)
- Fendrod – Iechyd Meddwl Oedolion (Dynion)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Gwnaethom arolygu'r lleoliad hwn ddiwethaf ym mis Mehefin 2018¹.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ <https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-06/180924cefncoedcy.pdf>

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod dyluniad hen ffasiwn Ysbyty Cefn Coed yn cael effaith negyddol ar brofiad y claf ac yn creu anawsterau i'r staff sy'n gweithio yn yr amgylchedd hwn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddarpariaeth iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r ffordd y caiff gofal iechyd meddwl ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Darparwyd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau i'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Trefniadau llywodraethu sefydledig.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Yr amgylchedd gofal, sy'n cael effaith negyddol ar breifatrwydd ac urddas y cleifion
- Yr amgylchedd gofal, er mwyn i'r staff reoli diogelwch y wardiau
- Cynllun yr ystafelloedd clinig a'r ffordd y caiff meddyginiaeth ei storio
- Y broses o gadw cofnodion a chwblhau dogfennaeth glinigol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Clinig Tawe yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ysbyty Cefn Coed, Y Cocyd, Abertawe, SA2 0GH ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae Ysbyty Cefn Coed² yn ysbyty iechyd meddwl mawr, fel sy'n nodweddiadol o ysbytai dechrau'r 20fed Ganrif, a agorodd gyntaf yn y 1930au. Mae cyfran fawr o'r ysbyty gwreiddiol wedi'i datgomiynu, ac mae'r wardiau sydd ar ôl wedi cael eu hailstrwythuro a'u hailwampio mewn ymgais i foderneiddio'r amgylchedd.

Mae Clinig Tawe yn darparu asesiadau, ymyriadau therapiwtig a chymorth i unigolion sy'n profi cyfnod o salwch meddwl aciwt lle mae angen gofal cleifion mewnol arnynt. Ceir dwy ward. Mae Fendrod yn darparu gofal i ddynion (20 o welyau) ac mae Clyne yn darparu gofal i fenywod (14 o welyau). Ar adeg ein harolygiad, roedd 14 o gleifion ar y naill ward a'r llall.

Mae'r ddwy ward â'u tinau amlddisgyblaethol yn cydweithio'n agos â thimau iechyd meddwl cymunedol cysylltiedig, ac yn arbennig y tîm datrys argyfyngau a thriniaeth yn y cartref ar gyfer ardal Abertawe.

Mae gwasanaethau cleifion eraill yn Ysbyty Cefn Coed yn cynnwys y canlynol:

- Mae Gwelfor yn darparu gwasanaeth adsefydlu llif araf³ a gwasanaeth camu i lawr.
- Mae Ysbryd y Coed yn wasanaeth pwrpasol sy'n darparu asesiadau estynedig, triniaeth ac amrywiaeth o ymyriadau therapiwtig i gleifion na allant, am ryw reswm neu'i gilydd, gael eu rheoli mewn unrhyw leoliad arall yn ystod y cyfnod hwnnw yn eu salwch.

² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/page/39265>

³ Mae gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl llif araf yn rhoi'r cyfle i gleifion gyflawni nodau, dod yn fwy annibynnol a sicrhau nad ydynt yn cymryd unrhyw gam yn ôl cyn dychwelyd i'r gymuned ehangach. Mae unedau camu i lawr yn rhoi'r cymorth a'r gofal sydd eu hangen ar bobl cyn iddynt ddychwelyd i'r gymuned ehangach.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Rhoddwyd y cyfle i'r cleifion gynnal a datblygu sgiliau drwy raglenni gweithgareddau a rhaglenni therapi amrywiol.

Mae'r amgylchedd gofal yn Ysbyty Cefn Coed yn hen ffasiwn ac yn cael effaith negyddol ar brofiad y claf.

Cadw'n iach

Roedd y ddwy ward yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i'r cleifion er mwyn helpu i gefnogi eu hannibyniaeth a'u helpu i adfer.

Drwy gydol yr arolygiad, ar y ddwy ward, gwelsom fod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a therapiau yn rheolaidd. Mae gan y ddwy ward gydgyssylltydd gweithgareddau dynodedig, ac roedd y ddau ohonynt hefyd yn gweithio rhai sifftiau dros y penwythnos. Mae'r ddwy ward yn cael mewnbwn gan therapydd galwedigaethol a thechnegydd therapi galwedigaethol.

Mae mewnbwn y gwasanaeth therapi galwedigaethol a'r cydgysylltwyr gweithgareddau yn helpu i ddarparu amrywiaeth briodol o weithgareddau asesu, yn yr ysbyty a'r gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau â'r sinema a mynd i fowlio, yn ogystal â mynd i siopau coffi a bwyta'i lleol. Roedd cysylltiadau cryf â sefydliadau gwirfoddol ac elusennol a oedd yn darparu gweithgareddau ychwanegol fel therapi cŵn a cherdded, trin dwylo ac ewinedd a hefyd grŵp cerddoriaeth.

Roedd gan y ddwy ward gegin therapi galwedigaethol a oedd yn cynnig cyfleuster hygyrch i'r cleifion ymarfer a datblygu eu sgiliau. Nid oedd tymheredd yr oergelloedd therapi galwedigaethol yn cael ei fonitro'n rheolaidd ar y naill ward na'r llall. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu storio ar y tymheredd cywir.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y gegin ar ward Fendrod hefyd yn cael ei defnyddio fel ystafell gyfarfod ar gyfer trafodaethau clinigol ac felly nid oedd ar gael yn ystod yr amseroedd hyn, a oedd yn cyfyngu ar allu'r cleifion i'w defnyddio. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod ystafell ychwanegol ar y ward wedi cael ei hailwampio ar gyfer cyfarfodydd a bod hynny'n golygu na fyddai'r gegin yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd clinigol mwyach.

Roedd amseroedd dynodedig ar y ddwy ward ar gyfer darparu diodydd i'r cleifion yn ystod y dydd. At hynny, gwelsom y cleifion ar ward Clyne yn cael diodydd poeth ac oer o'r gegin drwy gydol yr arolygiad. Nid oedd cleifion Fendrod yn gallu cael mynediad rhydd i'w cegin, ac felly roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio peiriant gwerthu diodydd yn yr ystafell fwytia er mwyn cael diodydd poeth. Golygai hyn nad oedd tegwch rhwng y ddwy ward, gyda chleifion Fendrod yn gorfod talu am ddiodydd poeth ychwanegol. Gwnaethom dynnu sylw uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd at hyn, a gytunodd na ddylid disgwyl i gleifion dalu am eu diodydd ac y byddent yn adolygu'r sefyllfa hon.

Roedd gan y ddwy ward eu gerddi dynodedig eu hunain, ac roedd y ddwy ohonynt yn cynnig man dymunol yn yr awyr agored. Roedd un o weithwyr cymorth gofal iechyd Fendrod wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ddatblygu gardd y ward. Roedd hyn wedi cynnwys treulio amser y tu allan i'w oriau gwaith yn adfywio'r ardal awyr agored er mwyn creu ardal therapiwtig i'r cleifion, a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr. I gydnabod hyn, cafodd yr aelod o'r staff ei enwebu am Wobr Cadeirydd y bwrdd iechyd.

Roedd mynediad i'r gerddi o'r wardiau wedi'i gyfyngu am nad oedd y staff yn gallu gweld y cleifion yn dda pan oeddent yno. Dim ond pan oedd staff ar gael i fynd gyda'r cleifion a sicrhau eu bod yn ddiogel, y gallai'r cleifion ddefnyddio'r ardd. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ryddid y cleifion i ddefnyddio'r ardaloedd hyn, o ganlyniad i ddyluniad hen ffasiwn Ysbyty Cefn Coed.

Yn ystod ein sgwrs â'r uwch-reolwyr, gwnaethant nodi eu bod am ddatblygu ardaloedd awyr agored yr ysbyty ymhellach, er mwyn cynnwys offer ymarfer corff awyr agored. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i'r cleifion wneud rhywfaint o ymarfer corff yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Ar hyn o bryd, mae dyluniad Ysbyty Cefn Coed yn golygu nad oes llawer o le i roi cyfleoedd i'r cleifion wneud ymarfer corff ar y wardiau nac yn y gerddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod tymheredd yr oergelloedd yn y ceginau therapi galwedigaethol yn cael ei fonitro
- Cadarnhau nad oes cyfarfodydd clinigol yn cael eu cynnal yn y gegin therapi galwedigaethol ar ward Fendrod
- Sicrhau nad yw'r cleifion yn gorfod talu am ddioddydd ar y ward
- Sicrhau bod y cleifion yn cael cyfle i ymarfer corff yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.

Gofal ag urddas

Drwy'r ysbyty cyfan, roedd yr holl staff a welsom yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd yr oeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad, a gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch. Pan oedd y cleifion yn mynd at yr aelodau o'r staff, roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr cryf rhwng y staff a'r cleifion.

Nid oedd amgylchedd y wardiau yn cyrraedd y safonau cyfredol⁴ ar gyfer unedau iechyd meddwl aciwt i oedolion. Roedd hyn yn cyflwyno heriau ynghylch agweddau ar ofal gydag urddas.

Roedd y ddwy ward yn darparu llety i ddynion yn unig neu i fenywod yn unig. Roedd gan bob claf ar Ward Clyne ei ystafell wely ei hun. Roedd gan y rhan fwyaf o gleifion ar Ward Fendrod eu hystafell wely eu hunain (roedd dwy ystafell wely yn cael eu rhannu, gyda dau wely ym mhob un). Roedd llenni rhwng y

⁴Nodyn Adeiladau Iechyd yng Nghymru (WHBN) 03-01 - Unedau Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion (Saesneg yn unig) <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1178/WHBN%2003-01%20Adult%20Acute%20Mental%20Health%20Units%20-%20final.pdf>

gwelyau yn yr ystafelloedd gwely a rennir. Fodd bynnag, dim ond lefel sylfaenol o breifatrwydd a gynigir gan y rhain, ac nid ydynt yn adlewyrchu darpariaeth gofal iechyd meddwl fodern.

Nid oedd cyfleusterau en-suite yn ystafelloedd gwely'r cleifion; roedd cyfleusterau toiled, cawod a bath a rennir ar bob ward, gyda thair cawod a bath ar Clyne a dwy gawod a bath ar ward Fendrod. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn ddigon o ystyried nifer y cleifion sydd ar y ddwy ward. At hynny, nid oedd un o'r cawodydd ar ward Clyne yn gweithio, a oedd yn cyfyngu ymhellach ar y cyfleusterau. Ar ward Fendrod, roedd plwg y bath ar goll, ac o ganlyniad roedd y cleifion yn defnyddio papur toiled i lenwi twll y plwg; nid yw hyn yn briodol. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd bod plygiau bath yn mynd ar goll yn rheolaidd. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr eu bod yn chwilio am fath gwahanol o blwg er mwyn atal hyn rhag digwydd.

Ers ein harolygiad blaenorol, roedd pum ystafell wely ar y ddwy ward wedi cael eu hailwampio fel rhan o'r gwaith o wneud gwelliannau gwrthglymu i amgylchedd y wardiau. Roedd y dodrefn, gosodiadau a ffitiadau newydd yr ystafelloedd gwely yn gwneud i'r ystafelloedd gwely hyn ymddangos yn llai llwm. Fodd bynnag, roedd gweddill yr ystafelloedd gwely ar y wardiau yn dal i fod yn llai croesawgar. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod gweddill yr ystafelloedd yn rhan o ail gam y broses ailwampio o ran gwrthglymu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer y defnydd o blygiau bath.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gofal a roddir iddynt, yn ogystal â manylion sefydliadau a all roi help a chefnogaeth i gleifion y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli yn cael ei harddangos yn glir.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gall cleifion a'u teuluoedd roi adborth am eu profiadau o'r gofal a roddir ar y wardiau. Roedd gwybodaeth

yn cael ei harddangos hefyd am y ffordd y gallai'r cleifion godi pryder am y gofal roeddent yn ei gael, gan gynnwys trefniadau Gweithio i Wella⁵ GIG Cymru.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am rôl AGIC na sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol o dan God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983⁶.

Nid oedd llawer o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr yn sesiwn adborth yr arolygiad fod hyn yn cael ei adolygu fel rhan o fenter newydd y bwrdd iechyd, 'Go Home Healthy'; roedd amrywiaeth o wybodaeth a gweithgareddau er mwyn helpu i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod hysbysfwrdd yn dangos ffotograffau o'r aelodau o'r staff ar y ddwy ward. Mae'r rhain yn helpu'r cleifion ac ymwelwyr i adnabod aelodau unigol o'r staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos am y canlynol:

- Rôl AGIC a sut i gysylltu â'r sefydliad
- Hybu iechyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a

⁵ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

⁶ Mae Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Diwygiwyd 2016) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol, mae'r Cod Ymarfer hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. <https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Adolygwyd sampl o gofnodion gofal ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Gwelsom fod y ddogfennaeth sydd ei hangen o dan y ddeddfwriaeth ar waith. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hyrwyddo a'u diogelu fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf

Gallai cleifion hefyd ddefnyddio eu ffonau symudol i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd modd i'r cleifion hynny nad oedd ganddynt ffôn symudol ddefnyddio ffonau'r wardiau.

Nid oedd gan y naill ward na'r llall ystafell gyfarfod ddynodedig lle gallai'r cleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat. Yn gyffredinol, yr arfer ar ward Fendrod oedd defnyddio ystafell fwyta'r cleifion, ac ar ward Clyde, roedd lle wrth fynedfa'r ward. Nid oedd yr un o'r ardaloedd hyn yn cynnig digon o breifatrwydd.

Roedd ardal ddynodedig oddi ar y ward i'w defnyddio pan oedd plant yn ymweld. Golygai hyn y gallai'r cleifion gwrdd ag aelodau iau o'r teulu i ffwrdd o amgylchedd y ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i'r cleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth am eu profiadau a chodi pryderon.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn ceisio datrys cwynion yn syth lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad oedd hyn yn bosibl, roeddent yn ymwybodol y gallai'r clefion uwchgyfeirio eu pryder drwy weithdrefn y bwrdd iechyd.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae amgylchedd y wardiau yn cael effaith negyddol ar allu'r staff i gadw'r cleifion yn ddiogel. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno gwelliannau ers ein harolygiad blaenorol, ond nid ydynt yn ddigonol i gyrraedd yr holl safonau priodol ar gyfer gwasanaethau i gleifion mewnol.

Mae angen gwneud gwelliannau i gynllun yr ystafelloedd clinig ar y ddwy ward, ynghyd â sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Er bod cofnodion y cleifion yn cael eu ffeilio'n systematig, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth glinigol yn gyflawn, a bod cynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion a risgiau'r claf unigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae Clinig Tawe wedi'i leoli yn adeilad gwreiddiol Ysbyty Cefn Coed ac mae'n cynnwys dwy ward, sef Ward Clyne a Ward Fendrod.

Mae mynediad gwastad at brif fynedfa'r adeilad a Ward Clyne. Mae hyn yn golygu bod mynediad at y ward yn haws i gleifion ac ymwelwyr sydd ag anawsterau symudedd. Gwelsom fod ymdrech sylweddol nodedig wedi'i wneud i ddangos y brif fynedfa'n glir a gwneud yr ardal o'i hamgylch yn ddymunol ac yn groesawgar i gleifion ac ymwelwyr â'r ysbyty.

Mae Ward Fendrod wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr adeilad a dim ond drwy ddringo'r grisiau y gellir cael mynediad ati. Mae hyn yn golygu nad yw cleifion sydd â phroblemau symudedd yn gallu cyrraedd y ward. Pe bai angen gofal ac ymyrraeth o'r fath, eglurwyd y byddai'r claf fel arfer yn derbyn gofal ar Ward F yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

Nid yw cynllun strwythurol hen ffasiwn y ward yn ei gwneud hi'n hawdd arsylwi ar gleifion. Mae nifer o goridau a chilfachau na all y staff eu gweld yn hawdd.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ceisio lliniaru hyn drwy osod drychau arsylwi; fodd bynnag, mae cynllun gwael y ward yn dal i'w gwneud hi'n anodd arsylwi a chadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel bob amser.

Roedd pwyntiau galw ar gael yn ystafelloedd gwely'r cleifion, ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Roedd y rhain yn galluogi'r cleifion roi gwybod i'r staff os oedd angen cymorth arnynt.

Nodwyd bod y staff yn cario larymau personol, sy'n welliant ers ein harolygiad blaenorol. Yn flaenorol, nid oedd rhai o'r staff yn gwisgo larymau, am eu bod o'r farn nad oedd unrhyw risg iddynt neu fod y risg i'w diogelwch yn isel. Fodd bynnag, system larwm sain yn unig ydoedd a oedd yn gweithredu'n fewnol ar y wardiau unigol. Nid oedd yn system larwm integredig, a oedd yn dangos yn weledol pa aelod o'r staff yr oedd angen cymorth ar unwaith arno, neu gymorth gan wardiau eraill. Pe bai angen, byddai'n rhaid i'r staff ffonio'r ward arall, a fyddai'n arwain at oedi cyn rhoi cymorth (neu beidio â chael cymorth o gwbl), yn enwedig yn ystod y nos pan fyddai llai o staff ar y wardiau.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cleifion yn cael eu rhwystro'n gorfforol ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Nid oedd gan yr un o'r ddwy ward ardal benodol y gallai'r staff ei defnyddio i reoli ymddygiadau heriol, nac ardaloedd i gadw'r cleifion ar wahân⁷.

Nid oedd gan yr un o'r ddwy ward le i staff fynd iddo'n hawdd er mwyn siarad â'r cleifion mewn ardal dawel o'r ward, i ffwrdd o'r cleifion eraill. Os nad oedd tactegau llonyddu llafar yn llwyddiannus, câi'r staff ddefnyddio technegau ymyrryd yn gorfforol; er y disgrifiwyd trefniadau i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y claf, byddai'r ymyriadau hyn fel arfer yn cael eu cynnal mewn ardaloedd cymunol lle y byddai'n bosibl bod cleifion eraill yn bresennol. Yn ogystal ag

⁷ Cyfyngu ac ynysu claf dan oruchwyliaeth, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, mewn ardal y caiff y claf ei rwystro rhag ei gadael, lle mae angen gwneud hynny ar unwaith er mwyn atal aflonyddwch ymddygiadol difrifol sy'n debygol o achosi niwed i eraill. (Cod Ymarfer Cymru (2016) ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983)

effeithio ar urddas y claf sydd angen cymorth y staff, gall hyn hefyd wneud i'r cleifion eraill sydd yn yr ardal ar y pryd deimlo'n anesmwyth.

Nid oedd Uned Gofal Seiciatrig Dwys⁸ yn Ysbyty Cefn Coed. Os oes angen, defnyddir Uned Gofal Seiciatrig Dwys Ysbyty Tywysoges Cymru⁹, Pen-y-bont ar Ogwr. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith ar gyfer mynediad parhaus i welyau Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Fodd bynnag, mae rheoli cleifion a'u trosglwyddo o un ysbyty i'r llall pan fydd angen gofal arnynt mewn Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn cyflwyno heriau sylweddol i'r staff, ac yn effeithio ar lesiant y claf dan sylw yn ystod y cyfnod hwn. Teimlai'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod peidio â chael ardaloedd priodol ar gyfer llonyddu a diffyg mynediad uniongyrchol at Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn andwyol i lesiant y claf, a bod hyn hefyd yn cyflwyno heriau ychwanegol i'r staff yn Ysbyty Cefn Coed.

Roedd ardal asesiadau derbyn, lle gallai gweithwyr proffesiynol ystyried a oedd angen i berson gael ei dderbyn i'r ysbyty. Nid oedd yr ardal hon yn ystafell ddiogel briodol ar gyfer cynnal asesiadau, oherwydd y risgiau posibl o hunan-niweidio neu niwed i eraill. Roedd nifer o bwyntiau clymu yn yr ystafell, ffenestri gwydr (nad oeddent wedi'u gwneud o wydr gwydn), a blwch trydanol ar y wal gydag arwydd perygl ynghlwm wrtho. Yn ogystal, nid oedd yr ystafell wedi'i dodrefnu'n dda, gan gynnwys eitemau y gellid eu taflu'n hawdd neu eu defnyddio fel arf, ac nid oedd cyfleusterau toiled yn yr ardal.

Dywedwyd wrthym hefyd fod modd clywed y sgysiau o'r tu allan i'r ystafell asesu, lle gallai pobl eraill fod yn eistedd. Er bod seddi ychwanegol ymhellach i ffwrdd

⁸Ward ieuchyd meddwl cleifion mewnol yw Uned Gofal Seiciatrig Dwys sy'n darparu mwy o gymorth a llai o risg i gleifion, gydag amgylchedd mwy cyfyngol a lefelau staffio uwch na'r hyn a geir ar ward aciwt. Nod Unedau Gofal Seiciatrig Dwys yw gofalu am gleifion na ellir eu rheoli ar wardiau seiciatrig aciwt oherwydd lefel y risg y mae'r claf yn ei pheri i'w hunan neu i eraill. Y nod yw bod y claf yn aros yn yr Uned am gyn lleied o amser â phosibl er mwyn rheoli'r ymddygiadau heriol cynyddol ac yna y caiff ei ddychwelyd i ward aciwt cyn gynted ag y bydd ei gyflwr meddyliol wedi sefydlogi i lefel y gellir ei rheoli'n ddiogel yno.

⁹ Roedd Ysbyty Tywysoges Cymru yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg tan 31 Mawrth 2019. Yn dilyn newid ffiniau'r byrddau ieuchyd ar 1 Ebrill 2019, crëwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru.

o'r ardal asesiadau derbyn, roedd y rhain mewn ardal lai preifat a olygai bod modd i berson a oedd yn aros i gael ei asesu gael ei weld yn hawdd gan bobl a oedd yn dod i mewn i'r ysbyty.

Er bod yr ardal asesiadau derbyn yn agos at fynedfa'r ddwy ward, roedd ar ei phen ei hun i lawr coridor, ac felly roedd yn bosibl na fyddai cymorth ar gael i staff a oedd yn asesu cleifion neu'n rheoli digwyddiad yn yr ardal honno.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y ward wedi cael ei hailwampio fel rhan o'r gwaith o wneud gwelliannau gwrthglymu i amgylchedd y wardiau. O ran pwyntiau clymu, roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom fod rheolaethau wedi'u nodi er mwyn lliniaru'r risg.

Roedd torwyr clymau ar gael yn gyfleus ar y ddwy ward. Roedd amrywiaeth o dorwyr clymau ar ward Clyne ar gyfer gwahanol fathau o glymau, ond dim ond un math o dorwr clymau oedd ar ward Fendrod. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd gan y staff y torwyr clymau mwyaf effeithiol ar gyfer pob sefyllfa. Cafwyd sicrwydd gan yr uwch-reolwyr y byddai'r amrywiaeth lawn o dorwyr clymau ar gael ar y ddwy ward.

Wrth adolygu'r cofnodion ceisiadau am waith cynnal a chadw, roedd yn amlwg bod y gwaith o gynnal yr amgylchedd yn cael ei lesteirio gan oed yr adeilad. Yn arbennig, gwnaed ceisiadau rheolaidd am waith trydanol a phlymio.

Hefyd, roedd meysydd o'r gwaith cynnal a chadw a oedd yn ymwneud ag ymdrin â pheryglon baglu. Ar ward Clyne, roedd rhannau o lorïau'r ward a oedd wedi meddalu, yn ogystal â seliau llawr a oedd wedi torri ac wedi cael eu tapio; mae angen trwsio'r rhain. Hefyd, roedd twll ar ward Fendrod wrth yr allanfa i'r ardd; nid oedd neb wedi rhoi gwybod am hyn, ond aeth y staff ati i wneud cais yn gysylltiedig â hyn yn ystod yr arolygiad.

Roedd ystafell smygu i'r cleifion yn dal i fod ar ward Fendrod. Roedd yr ystafell hon yn cael ei hawyru er mwyn cael gwared ar y mwg a sylwyd bod y drws yn cael ei gau pan fyddai'r cleifion yn defnyddio'r ystafell. Fodd bynnag, roedd arogl mwg yn amlwg ar y ward o hyd. Roedd y bwrdd iechyd wrthi'n datgomisïynu'r ystafell smygu, gyda threfniadau amgen yn cael eu gwneud yng ngardd y ward, sef y pwynt smygu i gleifion ward Clyne. Bydd cael gwared ar yr ystafell smygu yn cynnig lle ychwanegol ar ward Fendrod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Adolygu'r system larymau personol, er mwyn nodi gwelliannau y gellid eu gwneud wrth alw ar staff (gan gynnwys ar wardiau eraill).
- Ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i gynllun y ddwy ward, er mwyn cefnogi'r staff i reoli ymddygiadau heriol
- Sicrhau bod ardal asesuadau derbyn addas yn cael ei nodi, er mwyn cadw'r bobl sy'n cael eu hasesu, y staff a'r bobl eraill sy'n bresennol yn ddiogel.
- Sicrhau bod gan bob ward iechyd meddwl amrywiaeth o dorwyr clymau ar gyfer gwahanol fathau o glymau
- Sicrhau bod difrod i lorïau'r wardiau yn cael ei drwsio
- Sicrhau bod y twll yn y llawr wrth y fynedfa i'r ardd ar ward Fendrod yn cael ei drwsio
- Rhoi diweddariad i AGIC ar y broses o gael gwared ar yr ystafell smygu ar ward Fendrod.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau sefydledig ar gyfer atal a rheoli heintiau ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, roedd yr adeilad hen ffasiwn yn llesteirio ymdrechion y staff i gynnal mesurau rheoli ac atal heintiau'n effeithiol yn barhaus. Roedd y lle storio'n gyfyngedig ar y ddwy ward hefyd, a oedd yn golygu nad oedd eitemau'n cael eu storio'n briodol.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd y staff cadw tŷ yn cwblhau' amserlenni glanhau, a disgrifiodd y staff yr archwiliadau a gwblhawyd.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd y cyfleusterau toiled a chawod ar y ddwy ward yn gyfyngedig. Roeddent yn cael eu defnyddio'n helaeth drwy gydol y dydd ac felly roedd yn anodd cadw'r ardaloedd hyn yn lân. Cafwyd sylwadau ar hyn gan y cleifion, y staff cadw tŷ a staff y wardiau. Nodwyd hefyd fod problemau mynych gyda'r cyfleusterau hyn hefyd yn cyfyngu ar allu'r cleifion i'w defnyddio.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo, ynghyd â gel saniteiddio dwylo, ar gael ar y ddwy ward. Roedd posterï yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i olchi dwylo'n dda

yn cael eu harddangos hefyd. Mae'n bwysig golchi dwylo'n dda er mwyn lleihau croes-heintio.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol priodol fel menig a ffedogau tafladwy ar gael yn hawdd i'r staff eu defnyddio a gwelsom fod cemegau a chyfarpar glanhau yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i gael gwared ar offer miniog meddygol (nodwyddau) yn ddiogel mewn biniau lliw priodol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y caeadau diogelwch bob amser wedi'u cau ar y biniau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gallai hyn gynyddu'r risg y gallai staff gael eu hanafu gan offer miniog a oedd wedi cael eu taflu i'r bin.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i wella'r trefniadau storio ar y ddwy ward.
- Ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i gynyddu nifer y toiledau a chawodydd ar y ddwy ward.
- Sicrhau bod caeadau yn cael eu defnyddio'n briodol ar y biniau offer miniog.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod cleifion yn cael dewis o fwyd a diod. Y tu hwnt i'r prif adegau bwyd, roedd byrbrydau a diodydd ar gael drwy gydol y dydd. Roedd y prif brydau yn cael eu paratoi oddi ar y safle ac yn cael eu dosbarthu i'r wardiau mewn cynwysyddion wedi'u pacio'n barod. Yna, roeddent yn cael eu gwresogi gan y staff gweini cyn cael eu rhoi i'r cleifion.

Gwelsom brydau yn cael eu gweini ar y ddwy ward. Roedd y cleifion i'w gweld yn mwynhau'r prydau bwyd a ddarparwyd, er bod rhai o'r cleifion wedi mynegi eu bod braidd yn anfodlon ar y bwyd. Fodd bynnag, nid oedd thema gyson yn dod i'r amlwg, ac roedd rhai o'r sylwadau'n gwrthddweud ei gilydd.

Roedd yr ystafelloedd bwyta ar y ddwy ward yn lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylcheddau addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

Roedd gan y ddwy ward geginau y gallai'r cleifion eu defnyddio. Defnyddiwyd dull yn seiliedig ar risg i nodi lefel yr oruchwyliaeth yr oedd ei hangen ar y cleifion gan y staff pan oeddent yn defnyddio'r ceginau.

Roedd clwb brecwast yn cael ei gynnal ar y ddwy ward, ddeuddydd yr wythnos. Roedd y clwb hwn yn cynnig cyfleoedd i'r cleifion ryngweithio'n gymdeithasol a helpu i baratoi, coginio a bwyta brecwast gyda'i gilydd fel rhan o'u rhaglen adsefydlu. Roedd y clwb hwn yn rhan o'r rhaglen weithgareddau.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y ddwy ward, roedd yr ystafell glinig wedi'i diogelu er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Yn ystod ein hadolygiad o'r clinig, roedd y cypyrddau meddyginiaeth a'r oergelloedd wedi'u cloi.

Roedd y ddwy ystafell glinig yn fach, yn gyfyng ac nid oedd digon o le storio ynddynt. Dim ond rhagddor¹⁰ oedd ar fynedfa clinig ward Clyne, ond roedd hwn yn agor tuag allan ac nid oedd modd ei ddiogelu. O ganlyniad, roedd risg o anaf wrth agor y drws allan i ardal y ward a thra roedd ar agor, gan y gallai gael ei gau ar rywun pe byddent yn sefyll yn yr agoriad pan fyddai claf yn dod i gasglu ei feddyginiaeth. Nid oedd rhagddor ar glinig Fendrod, felly roedd yn rhaid i aelod o'r staff adael y clinig a mynd â'r feddyginiaeth i'w rhoi i'r claf.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd. Fodd bynnag, gwelsom fod tymereddau'r oergell ar ward Clyne wedi'u cofnodi y tu allan i'r amrediad gofynnol ar nifer o achlysuron ac nad oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd o ganlyniad i hynny.

Nid oedd unrhyw archwiliadau'n cael eu cynnal i gadarnhau tymheredd amgylchol yr ystafelloedd clinig. Roedd thermomedr ar glinig ward Clyne a oedd yn dangos tymheredd o 25 gradd Celsiws. Fel rheol, mae'r tymheredd hwn ar ben uchaf yr amrediad tymheredd a gynghorir ar gyfer meddyginiaeth nad oes

¹⁰ Drws ag adrannau uchaf ac isaf ar wahân, fel bod modd dim ond agor y rhan uchaf, y tu mewn i'r ystafell driniaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r staff roi meddyginiaeth i'r cleifion o'r tu mewn i'r ystafell glinig, tra bod y rhan isaf wedi'i chloi er mwyn helpu i atal mynediad anawdurdodedig.

angen ei storio mewn oergell. Nid oedd unrhyw gyfleuster i oeri'r ystafelloedd clinig os oedd y tymereddau'n codi uwchlaw'r terfyn hwn.

O ganlyniad, ni chawsom sicrwydd bod systemau priodol ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir yn yr ystafelloedd clinig nac mewn oergelloedd.

Nid oedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)¹¹ a adolygwyd gennym bob amser wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff ar y naill ward na'r llall. Roedd pethau'n cael eu hepgor wrth gwblhau manylion y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol. Roedd hyn yn cynnwys peidio â chofnodi enw llawn y claf, ei statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu fesuriadau iechyd corfforol megis mynegai crynswth corfforol, pwysau neu daldra. Roedd hepgoriadau hefyd weithiau wrth gofnodi meddyginiaeth a roddir neu'r rheswm pam na chafodd ei rhoi.

Ar ôl i gyffuriau anghyfreithlon gael eu darganfod ar ward Fendrod, cafodd y rhain eu cadw yn yr ystafell glinig nes eu gwaredu. Roedd yn amlwg bod staff y ward wedi dilyn polisi'r bwrdd iechyd, ond bu oedi wrth i'r adran fferylliaeth drefnu i gael gwared ar y cyffuriau anghyfreithlon. Fodd bynnag, siaradodd y staff yn gadarnhaol am drefniadau fferylliaeth y bwrdd iechyd, gan ddweud bod yr adran yn eu cefnogi'n dda.

Roedd cyfarpar dadebru brys ar gael yn hawdd i'r staff ac roedd tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau yn cael eu cwblhau bob nos. Fodd bynnag, ar ward Fendrod roedd eitemau a oedd wedi darfod, ac roedd angen cael rhai newydd yn eu lle; gwnaed hyn yn ystod yr arolygiad. Roedd yn nodedig bod y dyddiadau darfod wedi'u huwchleuo ar ward Clyne er mwyn helpu'r staff i'w harchwilio; dylai'r bwrdd iechyd ystyried lledaenu'r arfer hwn.

¹¹ Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i wella'r ystafelloedd clinig ar y ddwy ward
- Sicrhau y gweithredir ar unwaith i roi proses ar waith er mwyn sicrhau y caiff camau eu cymryd ar unwaith o ran nodi bod tymheredd oergelloedd meddyginiaeth yn anfoddhaol, a bod y camau hyn yn cael eu cofnodi
- Sicrhau bod tymheredd amgylchol yr ystafelloedd clinig yn cael ei gofnodi a'i fod yn aros o fewn yr amrediad derbyniol
- Sicrhau bod manylion y cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn ar siartiau MAR
- Sicrhau bod cyffuriau anghyfreithlon yn cael eu gwaredu o fewn yr amserlenni gofynnol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd y ddwy ward yn darparu gofal i oedolion yn unig. Roedd gan staff y wardiau fynediad at weithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy ei fewnwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dangosodd y staff ar y ddwy ward eu bod yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn cefnogi cleifion i hybu eu diogelwch a'u llesiant.

Er bod polisiâu a systemau ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol, mae'r amgylchedd hen ffasiwn yn cael effaith ar y gofal a roddir i'r cleifion a phrofiad y cleifion. Drwy gydol yr adroddiad, rydym wedi tynnu sylw

at feysydd o'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) y mae'r amgylchedd yn Ysbyty Cefn Coed yn effeithio arnynt, er gwaethaf y gwaith a wnaed i ailwampio'r wardiau.

Mae'r amgylchedd gofal hen ffasiwn hefyd yn effeithio ar allu staff y wardiau i ddarparu gofal wedi'i bersonoli. Mae amgylcheddau'r wardiau yn cyfyngu ar allu'r staff i roi'r gorau i arferion sefydliadol i gadw'r cleifion yn ddiogel, er enghraifft, cloi cyfleusterau a rennir, fel toiledau, cawodydd a cheginau (a nodwyd ar ward Fendrod), ynghyd â phennu amseroedd dynodedig ar gyfer defnyddio'r gerddi er mwyn galluogi goruchwyllo'r ardal i gadw'r cleifion yn ddiogel.

Hefyd, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn dangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (fel yr amlinellir yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal.

Er bod y bwrdd iechyd wedi nodi ei gamau gweithredu yn Atodiad C mewn perthynas â'r meysydd y mae angen eu gwella, mae'n rhaid iddo adolygu ei ddarpariaeth iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r ffordd y caiff gofal iechyd meddwl ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd wedi cael eu ffeilio mewn ffordd systematig. Fodd bynnag, nid oedd y staff bob amser yn symud y gyfrol ddiweddaraf o'r cofnod dan sylw i'r blaen. O ganlyniad, roedd yn anodd cael gafael ar y wybodaeth hon, yn enwedig os oedd y gyfrol ddiweddaraf o gofnod y claf wedi cael ei harchifo oddi ar y ward.

Roedd y staff yn cwblhau cofnodion ffeithiol. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn ymwneud â threfn ddyddiol y cleifion yn fanwl ac roeddent yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â gofal pob claf. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y staff bob amser yn nodi'n llawn mai nhw oedd wedi gwneud y cofnod, drwy gynnwys eu henwau mewn llythrennau bras, eu teitl swydd a'u llofnod. O ganlyniad, nid oedd bob amser yn glir pwy oedd wedi nodi'r wybodaeth ar gofnod y claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae'r cyfrolau diweddaraf o gofnodion y cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol

- Mae'r staff yn nodi'n glir mai nhw sydd wedi gwneud y cofnod, drwy gynnwys eu henwau mewn llythrennau bras, eu teitl swydd a'u llofnod.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol tri chlaf ar y ddwy ward.

Roedd ceisiadau i gadw'r cleifion wedi'u gwneud yn unol â'r Ddeddf. Roedd y rhain yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu cynnal fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Roedd y ffeiliau yn cael eu cadw dan glo yn yr uned ond roedd hi'n hawdd i'r aelodau o staff yr oedd angen iddynt weld y ffeiliau hynny gael gafael arnynt.

Wrth adolygu'r Siartiau MAR, gwnaethom nodi un achos lle roedd meddyginiaeth mewngyhyrol wedi cael ei rhagnodi, ond nad oedd y dull o'i rhoi fel hyn gweinyddu hwn wedi'i awdurdodi ar y dystysgrif cydsynio â thriniaeth gysylltiedig. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw feddyginiaeth wedi cael ei rhoi drwy bigiad mewngyhyrol a chafodd y Siart MAR ei diweddarau i ddileu'r dull hwn o'i rhoi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rhagnodi'n unol â darpariaethau cydsynio â thriniaeth y Ddeddf, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw feddyginiaeth ei rhoi mewn ffordd gyfreithlon.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pedwar claf i gyd.

Roedd amrywiaeth o ddogfennaeth iechyd corfforol safonedig gyda'r cofnodion cleifion mewnol, fel MUST¹², Graddfa Boen Abbey¹³ a Waterlow¹⁴. Ar y cyfan, roedd y dogfennau a adolygwyd gennym yn fanwl ac wedi'u cwblhau'n dda, a hefyd yn dangos bod y staff yn gofalu am iechyd corfforol y cleifion a'i fod yn cael ei fonitro, tra roeddent yn yr ysbyty.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau er mwyn nodi a monitro eu gofal, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli. Fodd bynnag, ar ward Clyne, gwelsom enghraifft lle nad oedd unrhyw gynlluniau gofal ar waith ar gyfer rheoli risg na hanes claf o ran dianc.

Ar ward Clyne hefyd, nodwyd gennym nad oedd cynllun gofal cysylltiedig ar waith i glaf y rhagnodwyd meddyginiaeth tawelu cyflym iddi. O ganlyniad, nid oedd unrhyw gofnod amlddisgyblaethol clir yn nodi'r rheswm pam y mae tawelu cyflym yn cael ei ystyried yn opsiwn ar gyfer rheoli ymddygiad, na dogfennaeth benodol i'r claf i lywio arferion y staff.

Nid oedd anghenion y cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu wedi'u nodi yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth. Mae'n bwysig y caiff unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu eu dogfennu fel y gall y tîm amlddisgyblaethol eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n bwysig ystyried opsiynau ar gyfer diwallu pob angen, gan y gallai hyn arwain at nodi lleoliad amgen.

Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion y cleifion, gwelsom fod dau glaf, un ar bob ward, wedi cael eu trosglwyddo i Gefn Coed o ysbyty arall, heb lawer o

¹² Adnodd sgrinio pum cam yw MUST (Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad) sy'n nodi oedolion sy'n dioddef o ddiffyg maeth, sydd mewn perygl o ddioddef o ddiffyg maeth neu sy'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

¹³ Mae Graddfa Boen Abbey yn adnodd a ddyluniwyd i helpu i asesu poen mewn cleifion na allant gyfleu eu hanghenion yn glir.

¹⁴ Defnyddir yr adnodd i asesu'r risg y bydd claf/cleient yn datblygu briw pwyso. Mae'r Waterlow yn cynnwys saith eitem: maint/pwysau, taldra, asesiad gweledol o'r croen, rhyw/oed, ymataliaeth, symudedd, ac awydd bwyd, a ffactorau risg arbennig, wedi'u rhannu'n ddiffyg maeth meinweoedd, diffyg niwrolegol, llawdriniaeth fawr/trawma, a meddyginiaeth. Mae'r adnodd yn nodi tri chategori 'wynebu risg': mae sgôr o 10-14 yn golygu 'wynebu risg', mae sgôr o 15-19 yn golygu 'risg uchel', ac mae sgôr o 20 ac uwch yn golygu 'risg uchel iawn'.

ddogfennaeth yn ymwneud â derbyniad gwreiddiol y claf yn yr ysbyty blaenorol. Yn achos y claf ar ward Fendrod, dogfennwyd gan y staff eu bod wedi cysylltu â'r ysbyty blaenorol i wneud cais brys am y ddogfennaeth glinigol a oedd ar goll. Fodd bynnag, ar ward Clyne, lle roedd y claf wedi bod yn bresennol ers mwy na phythefnos, nid oedd unrhyw gofnod i ddangos bod y staff wedi gwneud cais am y ddogfennaeth glinigol a oedd ar goll. At hyn, nid oedd y staff wedi cwblhau eu dogfennaeth asesu eu hunain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff asesiadau risg a chynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r risg sy'n gysylltiedig â'r claf unigol yn gywir
- Mae'r cynlluniau gofal yn cynnwys trefn feddyginiaeth y claf unigol yn gywir
- Caiff anghenion y claf nad ydynt yn cael eu diwallu eu dogfennu
- Mae'r staff yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw ddogfennaeth glinigol sydd ar goll.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd gan y ddwy ward brosesau a threfniadau archwilio effeithiol i gefnogi'r staff wrth gynnal gofal diogel ac effeithiol.

Roedd arweinyddiaeth gydwybodol, gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant a oedd yn darparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Yn ogystal, roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr.

Fodd bynnag, fel yr amlygir drwy gydol yr adroddiad, nid yw dyluniad hen ffasiwn Ysbyty Cefn Coed yn addas mwyach, a dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i ddarparu gwasanaeth sy'n adlewyrchu safonau presennol a safonau'r dyfodol er mwyn darparu gofal iechyd meddwl priodol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau ar gyfer uwch-reolwyr a meddygon ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Ar y cyfan, roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod ward Fendrod a ward Clyne yn canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth bod yr amgylchedd gofal yn Ysbyty Cefn Coed yn hen ffasiwn, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Mae hyn yn effeithio ar y gofal y gellir ei ddarparu i'r cleifion ar y wardiau hyn.

Gwnaeth uwch-reolwyr y bwrdd iechyd ymgysylltu'n agored yn ystod yr arolygiad, ac roeddent yn rhannu ein barn ar gyfyngiadau amgylchedd hen ffasiwn Ysbyty Cefn Coed. Gwnaethant rannu manylion am welliannau a wnaed ac a gynlluniwyd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r wardiau. Gwnaethant siarad am opsiynau posibl ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag,

nid oedd unrhyw benderfyniad clir am ddyfodol darpariaeth cleifion mewnol gan y bwrdd iechyd.

Mae amgylchedd y wardiau yn Ysbyty Cefn Coed islaw safon amgylcheddol wardiau iechyd meddwl eraill yn y bwrdd iechyd. O ganlyniad, nid yw'r cleifion a gaiff eu derbyn i ward Clyne neu ward Fendrod yn cael amgylchedd gofal o'r un safon â phobl ar wardiau iechyd meddwl eraill yn y bwrdd iechyd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei ddarpariaeth iechyd meddwl yn adlewyrchu safonau presennol a darpariaeth gofal iechyd meddwl yn y dyfodol.

Roedd rheolwyr y wardiau yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a chydwybodol ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymrwymedig. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel er gwaethaf cyfyngiadau amgylchedd y wardiau.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan reolwyr y ddwy ward. Dywedodd y staff hefyd fod gwaith tîm a morâl y staff ar y ddwy ward yn dda.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi, a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu'n agored ac yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddarpariaeth iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r ffordd y caiff gofal iechyd meddwl ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd y staff yn dangos eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ac roeddent i'w gweld yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Roedd y staff y

gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr ac arweinyddiaeth eu rheolwyr.

Dywedodd y staff fod ceisiadau i lenwi swyddi gwag drwy ymgyrch recriwtio yn cael eu hawdurdodi'n brydlon, a oedd yn helpu i gynnal timau'r wardiau. Fodd bynnag, ar ward Clyne, roedd un swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig, ac roedd tair nyrs gofrestredig ar absenoldeb tymor hir. O ganlyniad, roedd angen adnoddau ychwanegol i gyflawni rotas y staff. Lle y bo'n bosibl, roedd y ward yn defnyddio'i staff ei hun a nyrsys cofrestredig rheolaidd o blith staff banc y bwrdd iechyd.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn gweithio sifftiau ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni'r rotas er mwyn cynnal parhad y gofal. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod staff cofrestredig ac anghofrestredig yn gweithio gormod o oriau ar brydiau; fel arfer drwy weithio sifft ddwbl¹⁵. Gallai hyn arwain at flinder a allai effeithio ar eu llesiant a/neu beryglu eu barn broffesiynol ac effeithio ar ddiogelwch y cleifion.

Roedd y wybodaeth hyfforddiant a ddarparwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff yn dangos bod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro'n rheolaidd ac roedd yn uwch nag 80 y cant, ac roedd camau gweithredu amlwg i'w gweld ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw ofynion yn ymwneud â hyfforddiant a oedd heb eu bodloni. Roedd y staff hefyd yn canmol y cyfleoedd i gael hyfforddiant ychwanegol a mynd i gynadleddau a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Roedd y staff yn cwblhau arfarniadau perfformiad blynyddol ac roedd y rhain yn cael eu dogfennu fel tystiolaeth eu bod wedi cael eu cwblhau. Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff eu bod yn gallu cael goruchwyliaeth glinigol drwy'r bwrdd iechyd. Nid oedd yr un o'r ddwy ward yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd ar lefel reoli. Fodd bynnag, roedd hwn yn faes yr oedd y ddwy ward wrthi'n ei sefydlu.

Roedd diffyg cyfleusterau ar gyfer egwylliau'r staff ar y ddwy ward, ac roedd y rhai a oedd ar gael yn fach ac yn gyfyng. At hynny, oherwydd prinder lle storio yn yr

¹⁵ Mae sifft ddwbl yn cyfeirio at achlysur pan fydd aelod o'r staff yn gweithio'r sifft gynnar a'r sifft hwyr, sy'n gyfnod o 14 awr rhwng 7am a 9pm.

ysbyty, roedd ystafelloedd staff y ddwy ward yn cynnwys eitemau a ddylai gael eu storio mewn mannau eraill ar y wardiau. Roedd hyn yn golygu mai prin oedd y lleoedd addas y gallai'r staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyliau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r staff yn gweithio gormod o oriau
- Sicrhau bod ardaloedd priodol y gall y staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyliau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd cyfarpar dadebru brys ar ward Fendrod a oedd wedi darfod ac roedd angen cael rhai newydd yn eu lle.	Niwed posibl i glaf o ganlyniad i gyfarpar na ellid eu defnyddio pe bai argyfwng.	Rhoddwyd gwybod i Reolwr y Ward.	Rhoddwyd eitemau newydd yn lle'r rhai a oedd wedi darfod yn ystod yr arolygiad.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Cefn Coed – Clinig Tawe

Wardiau: Clyne a Fendrod

Dyddiad arolygu: 19 – 21 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Cefn Coed – Clinig Tawe

Wardiau: Clyne a Fendrod

Dyddiad arolygu: 19 – 21 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd yr oergelloedd yn y ceginau therapi galwedigaethol yn cael ei fonitro.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae oergell newydd wedi cael ei archebu, ac ar ôl iddi gael ei gosod, bydd staff gweini'r ward yn monitro'r tymheredd.	Rheolwr Ward	1 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau nad oes cyfarfodydd clinigol yn cael eu cynnal yn y gegin therapi galwedigaethol ar ward Fendrod.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae swyddfa newydd wedi cael ei chreu ym mlaen y ward a chaiff pob cyfarfod ei gynnal yn yr ardal hon yn y dyfodol.	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw cleifion yn gorfod talu am ddiodydd ar y ward.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae gosodiad y peiriant gwerthu diodydd wedi cael ei newid fel ei fod yn rhoi diodydd am ddim.	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael cyfle i wneud rhywfaint o ymarfer corff yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae cydgysylltydd gweithgareddau a thîm Therapi Galwedigaethol ar waith i gydgysylltu a chefnogi cyfleoedd i wneud ymarfer corff. Bydd y tîm ffisiotherapi hefyd yn cefnogi'r ward.	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer plygiau bath.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae plygiau newydd wedi cael eu harchebu.	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos am rôl AGIC a sut y gellir cysylltu â ni.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Taflenni AGIC yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd i gleifion.	Rheolwr y ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Taflenni hybu iechyd yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd i gleifion.	Rheolwr y ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr yn breifat.	6.2 Hawliau pobl	Mae ystafell ymweld i deuluoedd ar gael i'r holl gleifion ac ymwelwyr. Ceir darpariaeth hefyd ger ardal y dderbynfa.	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r system larymau personol, er mwyn nodi gwelliannau y gellid eu gwneud wrth roi gwybod i staff (gan gynnwys ar wardiau eraill) fod angen cymorth.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae gan bob aelod o'r staff larwm personol. Os oes angen cymorth, mae system galwadau llais ar waith ym mhob rhan o'r ysbyty.	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i gynllun y ddwy ward, er mwyn cefnogi'r staff i reoli ymddygiadau heriol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Nid oes llawer o le i wella cynllun y ward yn ei lleoliad presennol ond bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal gyda chydweithwyr yn yr Adran Ystadau. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chaiff ei ddogfennu ar y Gofrestr Risg.	Rheolwr Gwasanaeth	30 Tachwedd 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y ceir ardal asesiadau derbyn addas sy'n cadw'r unigolyn sy'n cael ei asesu a'r bobl sy'n bresennol yn ddiogel.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Nid oes llawer o le i wella cynllun yr ardal asesiadau yn ei lleoliad presennol ond bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal gyda chydweithwyr yn yr Adran Ystadau. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chaiff ei ddogfennu ar y Gofrestr Risg.	Rheolwr gwasanaeth	30 Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y wardiau iechyd meddwl amrywiaeth o dorwyr clymau ar gyfer gwahanol fathau o glymau.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae torwyr clymau ychwanegol wedi cael eu harchebu	Rheolwr gwasanaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y difrod i loriau'r ward yn cael ei drwsio.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae lloriau'r ward wedi'u trwsio	Rheolwr Ystadau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y twll wrth y fynedfa i'r ardd ar ward Fendrod yn cael ei drwsio.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr Adran Ystadau wedi'i drwsio	Rheolwr gwasanaeth/Rheolwr Ystadau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y broses o gael gwared ar yr ystafell smygu ar ward Fendrod.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae cynllun rhoi'r gorau i smygu ar y gweill ac mae cael gwared ar ystafell smygu fewnol y ward yn rhan annatod o'r fenter hon. Mae cysgodfa smygu a dyfeisiau ciglow (tanwyr) wedi cael eu harchebu.	Rheolwr gwasanaeth	Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i wella'r trefniadau storio ar y ddwy ward.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r trefniadau storio wedi cael eu hadolygu a nodwyd ardaloedd a all gynnig lle storio ychwanegol.	Rheolwr ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i gynyddu nifer y toiledau a chawodydd ar y ddwy ward.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Nid oes llawer o le i gynyddu nifer y toiledau a chawodydd ar y ddwy ward yn eu lleoliadau presennol. Caiff adolygiad pellach ei gynnal gyda chydweithwyr yn yr Adran Ystadau er mwyn ystyried unrhyw opsiynau posibl eraill.	Rheolwr Gwasanaeth	30 Tachwedd 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod caeadau yn cael eu defnyddio ar y biniau offer miniog.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae biniau offer miniog â chaeadau wedi'u darparu a bydd rheolwr y ward yn eu harchwilio a'u monitro.	Rheolwr y ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i wella'r ystafelloedd clinig ar y ddwy ward.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Caiff rhagddorau newydd eu gosod ar y ddwy ward.	Rheolwr Ystadau	Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau'n cael eu cymryd pan fydd darlleniadau tymheredd oergell feddyginiaeth y tu allan i'r amrediad derbyniol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae'r fferyllfa wedi'i hatgoffa am ei chyfrifoldeb i fonitro tymheredd oergelloedd. Bydd y fferyllfa'n rhoi gwybod i staff y ward os bydd unrhyw broblemau.	Rheolwr y fferyllfa / rheolwyr y wardiau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd amgylchol yr ystafelloedd clinig yn aros o fewn yr amrediad derbyniol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Caiff tymheredd pob un o ystafelloedd y ward ei fonitro gan yr adran ystadau a'i addasu'n briodol.	Rheolwr Ystadau	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn ar siartiau MAR.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae'r staff i gyd wedi cael cyfarwyddyd i gwblhau'r siartiau MAR yn llawn. Caiff hyn ei archwilio gan y fferyllfa.	Rheolwr y ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyffuriau anghyfreithlon yn cael eu gwaredu o fewn yr amserlenni gofynnol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Pan ddeuir o hyd i gyffuriau anghyfreithlon, mae'r fferyllfa yn eu gwaredu.	Rheolwr y fferyllfa	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfrolau diweddaraf o gofnodion y cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.	3.5 Cadw cofnodion	Ar y cyd â'r rheolwr cofnodion iechyd, caiff yr holl wybodaeth berthnasol ei symud o gyfrol i gyfrol. Caiff hyn ei archwilio.	Rheolwr y ward / Rheolwr cofnodion iechyd	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn nodi glir mai nhw sydd wedi gwneud y cofnod, drwy gynnwys eu henwau mewn llythrennau bras, eu teitl swydd a'u llofnod.	3.5 Cadw cofnodion	Mae pob gweithiwr proffesiynol wedi cael cyfarwyddyd i lofnodi pob cofnod yn unol â pholisi dogfennaeth y Bwrdd Iechyd. Bydd y Pennaeth Nyrsio yn darparu sicrwydd drwy archwilio.	Rheolwr y ward / Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rhagnodi'n unol â darpariaethau cydsynio â thriniaeth y Ddeddf, er	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Atgoffir pob aelod o'r staff o'r angen i sicrhau y caiff cofnodion cywir eu gwneud yn nodiadau'r cleifion.	Rheolwr Gwasanaeth	1 Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
mwyn sicrhau y caiff unrhyw feddyginiaeth ei rhoi mewn ffordd gyfreithlon.		Rheolwr y Ward / Rheolwr y Fferyllfa i archwilio.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau risg a chynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r risg sy'n gysylltiedig â'r claf unigol yn gywir.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae proses ar waith i sicrhau y caiff cynlluniau gofal a thriniaeth ac asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Pennaeth Nyrsio yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn darparu sicrwydd.	Rheolwr y ward / Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn dogfennu trefn feddyginiaeth y claf unigol yn gywir.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae pob cynllun gofal a thriniaeth yn cynnwys adran ar gyfer rheoli meddyginiaeth; mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i gwblhau pob cynllun gofal a thriniaeth yn llawn. Bydd y Pennaeth Nyrsio yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn darparu sicrwydd.	Rheolwr y ward / Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion claf nad ydynt yn cael eu diwallu yn cael eu dogfennu.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Gellir cofnodi anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn y CTP ac ar PARIS (system gweinyddu cleifion).	Rheolwr y ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd gofyn am ddogfennaeth	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
afael ag unrhyw ddogfennaeth glinigol sydd ar goll.		glinigol o ganlyniad i dderbyniadau i ysbytai eraill mewn ffordd brydlon.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddarpariaeth iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r ffordd y caiff gofal iechyd meddwl ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu grŵp cyfalaf iechyd meddwl oedolion sy'n arwain ar ailddarparu'r cyfleusterau cleifion mewnol i oedolion a gynigir ar safle Ysbyty Cefn Coed ar hyn o bryd.	Cyfarwyddwr Strategaeth	2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw'r staff yn gweithio gormod o oriau.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'u dyletswydd i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Orlaw Gwaith Ewropeaidd. Bydd y system E-roster sydd ar y gorwel yn helpu i fonitro a rheoli patrymau sifftiau a'r oriau a weithir.	Rheolwr gwasanaeth	Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o leodedd addas y gall y staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyliau.	7.1 Y Gweithlu	Fel rhan o'r gwaith o ddatgomiynu Ysbyty Cefn Coed, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailddarparu cantîn staff ac ystafell orffwys.	Rheolwr Ardal	Cwblhawyd

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Malcolm Jones

Teitl swydd: Rheolwr Ardal

Dyddiad: 10.10.2019